**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/PO327/2023

Paul Davies AS
Cadeirydd,
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

SeneddEconomy@senedd.cymru

3 Hydref 2023

Annwyl Paul,

Yn dilyn fy llythyr ar 5 Gorffennaf yn ymateb i argymhellion ETRAC, pe bai Bil Bwyd (Cymru) yn methu, roeddwn yn credu y byddai'n ddefnyddiol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith a wnaed dros yr haf a'r camau nesaf.

Wedi i'r Prif Weinidog gadeirio fforwm traws-bortffolio Llywodraeth Cymru ar 13 Mehefin, mae fy swyddogion wedi arwain ymarfer trawslywodraethol i baratoi ar gyfer cyhoeddi dogfen fer yn yr hydref ynghylch polisïau sy'n ymwneud â bwyd. Mae'r gwaith bellach yn mynd yn ei flaen i ddylunio ac ysgrifennu'r ddogfen. Bydd yn gryno, yn cael ei gyhoeddi ar-lein gyda hyperddolenni at y polisïau a'r gweithgareddau sydd ynddo, ac yn cynnwys astudiaethau achos. Gyda'i gilydd, bydd yn cyflwyno agenda strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer materion bwyd. Rwy'n hyderus y bydd yn helpu rhanddeiliaid i ddeall sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cymhleth a rhyng-gysylltiedig y mae bwyd yn eu cynnig. Rwy'n bwriadu cyhoeddi adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf ar ddiwedd y flwyddyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion hefyd wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol. Mae ymarfer ymgysylltu pwysig â rhanddeiliaid wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi. Mae'r ymarfer ymgysylltu wedi rhoi adborth gwerthfawr ar faterion a nodwyd mewn gwaith polisi hyd yma ac wedi cyfrannu at asesiad Llywodraeth Cymru o faterion ac opsiynau polisi. Mae'r ymarfer trawslywodraethol y cyfeiriais ato hefyd wedi nodi rhai cyfleoedd posibl o ran polisi. Yn ystod tymor yr hydref, bydd fy swyddogion yn parhau i ddatblygu'r gwaith a byddaf yn trafod ymhellach gyda Cefin Campbell AS, yr Aelod Dynodedig ar gyfer y rhan hwn o'r Cytundeb Cydweithio. Wrth aros am ganlyniad y trafodaethau hynny, a gwaith datblygu polisi ac ymgysylltu pellach o'n blaenau, rwy'n bwriadu cyhoeddi'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn 2014.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru, mewn egwyddor, Argymhelliad 8 eich Adroddiad a oedd yn cynnwys sefydlu bwrdd polisi bwyd mewnol neu weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae fy Nghyfarwyddwr Materion Gwledig bellach yn cadeirio fforwm traws-bortffolio o uwch swyddogion ynghylch materion bwyd, trefniant a fydd yn parhau fel modd i gynorthwyo gyda datblygu polisi at y dyfodol.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Cefin Campbell AS.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Cc:
Cefin Campbell MS